**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 14-01(p6)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **14 Tachwedd 2001** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgor 1** |
| **Teitl** | **Gweithgor Ehangu'r UE** |

**Pwrpas**

1. I ddarparu adroddiad ar gyfarfod cyntaf Gweithgor Ehangu'r UE y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

**Argymhelliad**

1. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gofyn am gael gwybod y datblygiadau diweddaraf a gwahoddir aelodau i nodi'r sefyllfa bresennol.

**Cefndir**

1. Fe wnaeth Gweithgor Ehangu'r UE y Pwyllgor Materion Ewropeaidd

gyfarfod am y tro cyntaf ddydd Llun 8 Hydref. Cyflwynwyd copi o adroddiad ar y cyfarfod i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ddydd Mercher 17 Hydref. Amgaeir copi o'r papur perthnasol EUR-05-01(tud3) a'r Atodiad yn amlinellu cefndir y grp a'r trafodaethau a'r argymhellion a wnaed.

3. Ystyriwyd a chymeradwywyd argymhellion Atodiad A gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

**Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD** **EUR 07-01(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **17 Hydref 2001** |
| **Lle** | **Ystafell Bwyllgora** |
| **Teitl** | **Gweithgor ar Ehangu** |

**Pwrpas**

1. Adrodd ar gyfarfod cyntaf y Gweithgor ar Ehangu.

**Argymhelliad**

2. Bod aelodau yn ystyried yr argymhellion a gyflwynir gan y Gweithgor.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod diwethaf ar 28 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd (gyda mân-newidiadau) ar gylch gwaith drafft ar gyfer gweithgor i ystyried materion yn ymwneud ag ehangu. Cytunwyd hefyd y dylai'r gweithgor adrodd yn ôl wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd gydag argymhellion cadarn yngln â'r agwedd wleidyddol y dylai'r Cynulliad ei mabwysiadu ar efeillio. Mae'r papur hwn yn gwneud hynny ac yn mynd gam ymhellach drwy adrodd ar yr holl faterion eraill y mae'r grwp wedi'u hystyried mewn perthynas ag ehangu.

4. Cyfarfu'r Gweithgor Ehangu am y tro cyntaf ddydd Llun 8 Hydref. Gwahoddwyd y Grwp i ystyried saith papur. Roedd WGE(01)1 yn rhoi golwg gyffredinol ar ehangu'r Undeb Ewropeaidd ac yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion megis yr Ewro sydd wedi dod yn rhan annatod o'r broses ehangu, ond sy'n mynd rhagddynt yn annibynnol ac sy'n gaeth i amserlenni gwahanol.

5. Roedd WGE(01)2 yn ystyried safbwyntiau'r Deyrnas Unedig a'r Cynulliad ar fater ehangu a'r manteision a'r sialensiau mwy cyffredinol i Gymru yn sgil ehangu. Roedd yn trafod y materion a oedd yn deillio o'r ddogfen "Ysgogi Cymru" ac yn archwilio nifer o opsiynau o ran gweithredu neu ddatblygu rhai o'r materion a oedd yn deillio ohoni.

6. Roedd papurau WGE(01)3 – 6 yn mynd i'r afael â materion cysylltiedig, ond gwahanol, sef yr Ewro, Llywodraethu Ewropeaidd, Cydlyniant Cymdeithasol ac Economaidd a Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn y drefn honno. Roedd WGE(01)7 yn pennu rhaglen weithredu arfaethedig yn deillio o'r gwahanol bapurau.

7. Yn Atodiad A ceir y prif argymhellion a ddeilliodd o'r cyfarfod.

**Cydymffurfio**

8. Mae Rheol Sefydlog 15 yn ymdrin â gwaith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Sefydlwyd y gweithgor ar sail pwerau'r Cynulliad o dan adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Grwp ymgynghorol anffurfiol ydyw a'i brif dasg fydd adrodd wrth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Ymgynghorwyd â Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad ac mae'n fodlon â'r agweddau ar gydymffurfio.

**Goblygiadau ariannol**

9. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn deillio o'r materion sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn.

| **Papur** | **Trafodaeth** | **Argymhellion** |
| --- | --- | --- |
| WGE(01)2 | **Targedu rhanbarthau priodol**<br><br>Cytunwyd y byddai meithrin dull wedi'i dargedu wrth gysylltu â gwledydd canol a dwyrain Ewrop yn ffordd briodol ymlaen.<br><br>Wrth benderfynu pa wledydd a rhanbarthau penodol i feithrin cysylltiadau â nhw, roedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng y manteision i Gymru, yn y tymor byr a'r tymor hwy, a'r goblygiadau o ran adnoddau.<br><br>Cydnabuwyd bod llawer eisoes yn cael ei wneud ar sawl lefel wahanol ac mewn meysydd gwahanol ac er bod cysylltiadau masnachol ac economaidd yn bwysig, roedd hefyd yn bwysig datblygu cysylltiadau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol.<br><br>O ran gefeillio gwleidyddol, er bod y grwp yn cydnabod bod tebygrwydd naturiol rhwng Cymru a rhanbarthau a oedd yn rhannu hanes diwydiannol tebyg (megis Silesia), roedd hefyd o'r farn y dylid datblygu cysylltiadau â rhanbarth a oedd yn datblygu'n gynt na'r cyffredin yn Ewrop. | i. Dylai cysylltiadau â Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec a Hwngari gael blaenoriaeth, gyda gweithgareddau ail haen i gyfeiriad Estonia a Slofenia.<br>ii. Dylid ystyried y posibilrwydd o sefydlu gwell cysylltiadau gwleidyddol, masnachol a chysylltiadau eraill ag ardal Silesia Gwlad Pwyl drwy ymweliad Prif Weinidog Cymru ym mis Rhagfyr.<br>iii. Dylai swyddogion ystyried yr opsiynau o ran sefydlu gwell cysylltiadau ag ail ranbarth o fewn gwledydd canol a dwyrain Ewrop.<br>iv. Dylai MasnachCymru Rhyngwladol barhau i adolygu lefel y gweithgaredd yng ngwledydd canol a dwyrain Ewrop yng ngoleuni'r cylch cynllunio cyllideb presennol. |

**Strategaeth Farchnata ar gyfer Cymru**

Cydnabuwyd bod cryn dipyn o waith eisoes yn cael ei wneud i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol drwy'r fenter "Cymru Cenedl Byd".

Er bod cryn lawer o wybodaeth ar gael am y cysylltiadau masnachol a oedd yn bodoli, roedd angen llunio darlun tebyg i ddangos y cysylltiadau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol. Yr oedd rhai o'r rhain yn ffynonellau cyllid pwysig (er enghraifft cyllid a ddaw oddi wrth fyfyrwyr tramor).

i. Dylai swyddogion gynnal adolygiad o'r cysylltiadau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol yng Nghymru.
ii. Dylai swyddogion feddwl am ffyrdd eraill o farchnata Cymru.

**Nodi a hyrwyddo arbenigedd Cymru**

Daeth y grwp i'r casgliad bod llawer o waith eisoes ar y gweill ond bod angen cydlynu'r gwaith hwnnw a bod angen gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar gael i fwy o bobl fel bod modd archwilio a datblygu'r cysylltiadau a'r synergedd ymhellach.

i. Dylai swyddogion gasglu ynghyd wybodaeth am gyfraniad Cymru i rwydweithiau, arbenigedd a phrofiad Cymreig a'i ddosbarthu'n eang a'i gyhoeddi ar y Rhyngrwyd.
ii. Dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, ynghyd ag un neu fwy o'r Adrannau sy'n cymryd rhan, i fynychu un o gyfarfodydd y Gweithgor yn y dyfodol i amlinellu goblygiadau ac ymarferoldeb cymryd rhan yn y rhaglen gefeillio Ewropeaidd

**Cynyddu'r wybodaeth am wledydd canol a dwyrain Ewrop a'r cysylltiadau â'r gwledydd hynny**

Cydnabuwyd bod llawer eisoes yn digwydd, ond nad oedd y gwaith yn aml wedi'i gydlynu a'i fod yn dameidiog. Ailgadarnhawyd bod ansawdd y cysylltiadau a gâi eu meithrin yn bwysig - lle bo'n bosibl, dylai'r rhain fod yn fanteisiol i'r ddwy ochr ac yn gysylltiadau tymor hir.

Y Cynulliad a Chanolfan Ewropeaidd Cymru i drafod â phartneriaid sut y gellid sicrhau ffordd fwy cydlynol ac adrodd yn ôl wrth gyfarfod

| | | |
|---|---|---|
| | | dilynol. |
| | **Rhannu Gwybodaeth**<br><br>Nododd y grwp fodolaeth nifer o rwydweithiau gwybodaeth ledled Cymru a chytunodd y dylent gael eu hadolygu ar frys. | Dylai swyddogion gyflwyno cynigion penodol ar gyfer gwella'r system rhwydwaith gwybodaeth bresennol gerbron cyfarfod nesaf y grwp. |
| WGE(01)3 | **Yr Ewro**<br><br>Nododd y grwp y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â pharatoadau sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru | Dim argymhellion penodol. |
| WGE(01)4 | **Llywodraethu Ewropeaidd**<br><br>Adroddwyd y byddai'r ddadl ar lywodraethu yn parhau am y deufis nesaf. Byddai'r Cynulliad a Llywodraeth Leol Cymru yn ymateb i'r Papur Gwyn erbyn Mawrth 2002. | Dylid gwahodd y grwp i gytuno ar argymhellion er mwyn ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn ar Lywodraethu'r UE yn unol ag amserlen y Comisiwn ar gyfer ymatebion. |
| WGE(01)5 | **Cydlyniant Economaidd a Chymdeithasol**<br><br>Er mwyn dylanwadu ar y Trydydd Adroddiad Cydlyniant, clywodd y grwp y byddai angen ymateb i'r Ail Adroddiad erbyn Mawrth 2002. Roedd y Cynulliad ar hyn o bryd yn ystyried cymryd rhan yng ngweithdai'r Comisiwn, a oedd i'w cynnal y gwanwyn nesaf, ond rydym yn disgwyl manylion pellach. | Dylid gwahodd y grwp i gytuno ar argymhellion er mwyn ymateb i Ail Adroddiad y Comisiwn ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| WGE(01)6 | **Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**<br><br>Clywodd y grwp beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran adolygiad canol tymor Agenda 2000 i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Nododd y grwp y byddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar broses adolygu canol tymor yn y Flwyddyn Newydd. | Dim argymhellion penodol. |

**Materion Ewropeaidd ac Allanol**